W

# Rhaglen Ryngwladol OECD er Asesu Disgyblion 2009

ORGANISATION FOR ECONOMIC CO-OPERATION AND DEVELOPMENT




*Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon*
*Prif Arolwg PISA 2009*

Dyddiad y prawf   ______ / ______ / 2009
Dydd   Mis

## HOLIADUR DISGYBL

Enw'r ysgol ____________________

Rhif disgybl ____________________

Enw'r disgybl ____________________

Dyddiad Geni ______ / 19 ______
Mis   Blwyddyn

Cymraeg 379

NPD 11003-11     StQ (W)

***Consortiwm Prosiect B:***

**Cito Institute for Educational Measurement**
**University of Twente**
**University of Jyväskyla, Institute for Educational Research**
**Direction de l'Evaluation de la Prospective et de la Performance (DEPP)**

Mae’r llyfryn hwn yn cynnwys cwestiynau am y canlynol:

- Chi
- Eich teulu a’ch cartref
- Eich arferion darllen
- Eich amser dysgu
- Naws y dosbarth a’r ysgol
- Eich gwersi Cymraeg
- Llyfrgelloedd
- Eich strategaethau i ddarllen a deall testunau

Mae rhai o’r cwestiynau yn eich holi am *ddarllen.* Mae hyn yn golygu’r gallu i ddeall, defnyddio a meddwl am destunau *ysgrifenedig*. Mae angen y sgiliau hyn arnoch chi i gyrraedd eich nodau, i ddatblygu eich gwybodaeth a’ch potensial, ac i gymryd rhan yn y gymdeithas.

Dylech ddarllen pob cwestiwn yn ofalus a’i ateb mor gywir â phosib. Yn y prawf roeddech fel arfer yn rhoi cylch o amgylch eich atebion. Yn yr holiadur hwn, byddwch fel arfer yn ateb trwy roi tic mewn blwch. Ar gyfer nifer fach o gwestiynau bydd angen ichi ysgrifennu ateb byr.

Os gwnewch gamgymeriad wrth roi tic mewn blwch, dylech roi llinell trwy’r camgymeriad neu ei ddileu a marcio’r blwch cywir. Os gwnewch chi gamgymeriad wrth ysgrifennu ateb, croeswch hwnnw allan ac ysgrifennwch yr ateb cywir yn ei ymyl.

**Yn yr holiadur hwn, does dim atebion cywir neu anghywir. Dylech roi’r atebion sy’n iawn i chi.**

Gallwch ofyn am help os nad ydych chi’n deall rhywbeth neu os nad ydych chi’n siŵr sut i ateb cwestiwn.

**Byddwn yn cyfuno eich atebion gydag eraill er mwyn ffurfio cyfanswm neu gyfartaledd. Ni fydd yn bosib adnabod atebion unigolyn wedyn.**

## ADRAN 1: AMDANOCH CHI

**C1 Ymha grŵp blwyddyn ydych chi?**

*Blwyddyn* |__|__|

**C2 Pa un o'r cyrsiau canlynol ydych chi'n ei ddilyn yn bennaf?**

*(Ticiwch un blwch yn unig)*

| | |
|---|---|
| Lefel mynediad – astudio'n bennaf tuag at Dystysgrifau Lefel Mynediad | ☐ 1 |
| TGAU- astudio'n bennaf tuag at TGAU neu gymwysterau cyfatebol lefel 1 neu lefel 2 | ☐ 2 |
| Lefel A neu Uwch-gyfrannol – astudio'n bennaf ar gyfer Lefel A neu Uwch-gyfrannol neu gymwysterau analwedigaethol cyfatebol lefel 3 | ☐ 3 |
| Lefel A neu Uwch-gyfrannol TAA (VCE) – astudio'n bennaf ar gyfer Lefel A neu Uwch-gyfrannol TAA (VCE) | ☐ 4 |
| CGC (NVQ) lefel 1 neu 2 – astudio'n bennaf tuag at gymwysterau galwedigaethol lefel 1 neu 2 e.e. CGC (NVQ) lefel 1 neu 2 | ☐ 5 |
| CGC (NVQ) lefel 3 – astudio'n bennaf tuag at gymwysterau galwedigaethol lefel 3 e.e. CGC (NVQ) lefel 3 | ☐ 6 |
| Rwyf yn yr ysgol yn Lloegr a heb ddechrau Blwyddyn 10 eto | ☐ 7 |
| Rwyf yn yr ysgol yng Nghymru a heb ddechrau Blwyddyn 10 eto | ☐ 8 |
| Rwyf yn yr ysgol yng Ngogledd Iwerddon a heb ddechrau Blwyddyn 11 eto | ☐ 9 |

**C3 Ar ba ddyddiad cawsoch eich geni?**

*(Ysgrifennwch y dydd, y mis a'r flwyddyn y cawsoch eich geni)*

|__|__| |__|__| *19* |__|__|

*Dydd* *Mis* *Blwyddyn*

**C4 Ai merch neu fachgen ydych chi?**

*Merch* ☐ 1 *Bachgen* ☐ 2

**C5 A fuoch chi erioed mewn dosbarth derbyn, ysgol feithrin neu grwpiau meithrin, cylch chwarae neu feithrinfa ddydd?**

Naddo ............................................. ☐ 1

Do, am un flwyddyn neu lai ............ ☐ 2

Do, am fwy nag un flwyddyn .......... ☐ 3

**C6 Beth oedd eich oed wrth i chi ddechrau ym Mlwyddyn 1?**

|__|__| *blwydd oed*

## C7 Ydych chi wedi ail-wneud blwyddyn yn yr ysgol?

*(Ticiwch un blwch yn unig ymhob rhes)*

| | *Ddim erioed* | *Do, unwaith* | *Do, ddwywaith neu fwy* |
|---|---|---|---|
| a) Yn yr ysgol gynradd ............. | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 |
| b) Yn yr ysgol uwchradd (cyn i chi fod yn 14) ........................ | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 |
| c) Yn yr ysgol uwchradd (pan oeddech yn 14 neu fwy) ........ | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 |

## ADRAN 2: EICH TEULU A'CH CARTREF

*Yn yr adran hon mae cwestiynau i chi am eich teulu a'ch cartref.*

*Mae rhai o'r cwestiynau canlynol am eich mam a'ch tad neu'r bobl hynny sydd fel mam neu tad i chi – er enghraifft, gwarcheidwaid, llysrieni, rhieni maeth, ayb.*

*Os ydych chi'n rhannu'ch amser rhwng mwy nag un set o rieni neu warcheidwaid, atebwch y cwestiynau canlynol ar gyfer y rhieni/gwarcheidwaid rydych chi gyda nhw fwyaf.*

### C8 Pwy sy'n arfer byw gartref gyda chi?

*(Ticiwch un blwch ymhob rhes)*

| | *Ie* | *Nage* |
|---|---|---|
| a) Mam (yn cynnwys llysfam neu fam faeth) | ☐ 1 | ☐ 2 |
| b) Tad (yn cynnwys llysdad neu dad maeth)) | ☐ 1 | ☐ 2 |
| c) Brawd/brodyr (yn cynnwys llysfrodyr) | ☐ 1 | ☐ 2 |
| ch) Chwaer/chwiorydd (yn cynnwys llyschwiorydd) | ☐ 1 | ☐ 2 |
| d) Mam-gu/tad-cu (taid a nain) | ☐ 1 | ☐ 2 |
| dd) Eraill (e.e. cefnder) | ☐ 1 | ☐ 2 |

**C9a Beth yw prif waith eich mam?**
(e.e. athrawes, gweithio mewn cegin, rheolwr gwerthu)

*(Os nad yw hi'n gweithio nawr, beth oedd ei gwaith diwethaf?)*

*Ysgrifennwch enw ei swydd.*

**C9b Beth mae eich mam yn ei wneud yn ei phrif waith?**
(e.e. dysgu disgyblion ysgol uwchradd, helpu'r cogydd i baratoi bwyd mewn bwyty, rheoli tîm gwerthu)

*Disgrifiwch mewn brawddeg y math o waith mae hi'n ei wneud neu roedd yn ei wneud yn y swydd honno*

**C10 Beth yw lefel uchaf yr addysg a gafodd eich mam?**

*Os nad ydych yn siŵr pa flwch i'w dicio, gofynnwch i'r Gweinyddydd Profion am help.*

*(Ticiwch un blwch yn unig)*

Cwblhau Safon A neu AS neu gymwysterau cyfatebol e.e. NVQ lefel 3, GNVQ Uwch ☐ 1

Cwblhau TGAU neu gymwysterau cyfatebol e.e. Lefel O, TAU, NVQ lefel 1 neu 2, GNVQ lefel Sylfaen/Canolradd ☐ 2

Gadael yr ysgol ar ôl cyrraedd 14 oed heb unrhyw gymwysterau ☐ 3

Cwblhau'r ysgol gynradd, yna gadael yr ysgol cyn cyrraedd 14 heb gymwysterau ☐ 4

Ni orffennodd yr ysgol gynradd ☐ 5

## C11 Oes rhai o’r cymwysterau hyn gan eich mam?

*Os nad ydych yn siŵr sut mae ateb y cwestiwn hwn, gofynnwch i’r Gweinyddydd Profion am help.*

*(Ticiwch un blwch ymhob rhes)*

| | Oes | Na |
|---|---|---|
| a) Doethuriaeth neu radd uwch (e.e. MPhil, PhD) | ☐ 1 | ☐ 2 |
| b) Gradd brifysgol (e.e. BA, BSc, BEd) neu radd Meistr (e.e. MA, MSc, MBA) | ☐ 1 | ☐ 2 |
| c) cymwyster Addysg Uwch is na gradd, e.g. NVQ lefel 4 neu 5, Diploma Addysg Uwch, cymwysterau nyrsio neu lefelau Uwch HNC, HND, neu BTEC | ☐ 1 | ☐ 2 |
| ch) Cwrs mynediad i Addysg Uwch. Mae hwn yn rhoi hawl i rywun fynd i Addysg Uwch heb Safon Uwch, er enghraifft | ☐ 1 | ☐ 2 |

## C12 Beth mae eich mam yn ei wneud ar hyn o bryd?

*(Ticiwch un blwch yn unig)*

Gweithio’n llawn-amser am arian ..................... ☐ 1

Gweithio’n rhan-amser am arian ...................... ☐ 2

Ddim yn gweithio, ond yn chwilio am waith .... ☐ 3

Arall (e.e. gofalu am y tŷ, wedi ymddeol) ........ ☐ 4

**C13a Beth yw prif waith eich tad?**

(e.e. athro, gweithio mewn cegin, rheolwr gwerthu)

*(Os nad yw'n gweithio nawr, beth oedd ei waith diwethaf?)*

*Ysgrifennwch enw ei swydd.*

**C13b Beth mae eich tad yn ei wneud yn ei brif waith?**

(e.e. dysgu disgyblion ysgol uwchradd, helpu'r cogydd i baratoi bwyd mewn bwyty, rheoli tîm gwerthu)

*Disgrifiwch mewn brawddeg y math o waith mae e'n ei wneud neu roedd yn ei wneud yn y swydd honno*

**C14 Beth yw lefel uchaf yr addysg a gafodd eich tad?**

*Os nad ydych yn siŵr pa blwch i'w dicio, gofynnwch i'r Gweinyddydd Profion am help.*

*(Ticiwch un blwch yn unig)*

- Cwblhau Safon A neu AS neu gymwysterau cyfatebol e.e. NVQ lefel 3, GNVQ Uwch ☐ 1
- Cwblhau TGAU neu gymwysterau cyfatebol e.e. Lefel O, TAU, NVQ lefel 1 neu 2, GNVQ lefel Sylfaen/Canolradd ☐ 2
- Gadael yr ysgol ar ôl cyrraedd 14 oed heb unrhyw gymwysterau ☐ 3
- Cwblhau'r ysgol gynradd, yna gadael yr ysgol cyn cyrraedd 14 heb gymwysterau ☐ 4
- Ni orffennodd yr ysgol gynradd ☐ 5

## C15 Oes rhai o’r cymwysterau hyn gan eich tad?

*Os nad ydych yn siŵr sut mae ateb y cwestiwn hwn, gofynnwch i’r Gweinyddydd Profion am help.*

*(Ticiwch un blwch ymhob rhes)*

| | *Oes* | *Na* |
|---|---|---|
| a) Doethuriaeth neu radd uwch (e.e. MPhil, PhD) | ☐ 1 | ☐ 2 |
| b) Gradd brifysgol (e.e. BA, BSc, BEd) neu radd Meistr (e.e. MA, MSc, MBA) | ☐ 1 | ☐ 2 |
| c) Cymwyster Addysg Uwch is na gradd, e.g. NVQ lefel 4 neu 5, Diploma Addysg Uwch, cymwysterau nyrsio neu lefelau Uwch HNC, HND, neu BTEC | ☐ 1 | ☐ 2 |
| ch) Cwrs mynediad i Addysg Uwch. Mae hwn yn rhoi hawl i rywun fynd i Addysg Uwch heb Safon Uwch, er enghraifft | ☐ 1 | ☐ 2 |

## C16 Beth mae eich tad yn ei wneud ar hyn o bryd?

*(Ticiwch un blwch yn unig)*

Gweithio’n llawn-amser am arian .................... ☐ 1

Gweithio’n rhan-amser am arian ...................... ☐ 2

Ddim yn gweithio, ond yn chwilio am waith .... ☐ 3

Arall (e.e. gofalu am y tŷ, wedi ymddeol) ........ ☐ 4

**C17 Ymha wlad cawsoch chi a'ch rhieni eich geni?**

*(Ticiwch un blwch ymhob colofn)*

| | *Chi* | *Mam* | *Tad* |
|---|---|---|---|
| Y Deyrnas Unedig (Lloegr, Cymru, Yr Alban neu Ogledd Iwerddon) | ☐ 01 | ☐ 01 | ☐ 01 |
| Gwlad arall | ☐ 02 | ☐ 02 | ☐ 02 |

**C18 Os NA chawsoch <u>chi</u> eich geni yn y Deyrnas Unedig (DU), beth oedd eich oed pan ddaethoch chi i'r DU?**

*Os oeddech chi'n llai na 12 mis oed, ysgrifennwch sero (0).*

*Os cawsoch eich geni yn y DU, ewch dros y cwestiwn hwn at C19.*

|__|__| *oed*

**C19 Pa iaith ydych chi'n ei siarad gartref y rhan fwyaf o'r amser?**

*(Ticiwch un blwch yn unig)*

Saesneg ☐ 313

Cymraeg ☐ 379

Gwyddeleg ☐ 434

Ulster Scots ☐ 626

Iaith arall ☐ 858

**C20 Pa rai o'r canlynol sydd yn eich cartref chi?**

*(Ticiwch un blwch ymhob rhes)*

| | | *Oes* | *Na* |
|---|---|---|---|
| a) | Desg ar gyfer astudio | ☐ 1 | ☐ 2 |
| b) | Eich ystafell eich hun | ☐ 1 | ☐ 2 |
| c) | Lle tawel i astudio | ☐ 1 | ☐ 2 |
| ch) | Cyfrifiadur i'w ddefnyddio am waith ysgol | ☐ 1 | ☐ 2 |
| d) | Rhaglenni cyfrifiadur addysgol | ☐ 1 | ☐ 2 |
| dd) | Cyswllt â'r rhyngrwyd | ☐ 1 | ☐ 2 |
| e) | Llenyddiaeth fawr (e.e. Kate Roberts, Shakespeare) | ☐ 1 | ☐ 2 |
| f) | Llyfrau barddoniaeth | ☐ 1 | ☐ 2 |
| ff) | Gweithiau celf (e.g. peintiadau) | ☐ 1 | ☐ 2 |
| g) | Llyfrau i helpu gyda'ch gwaith ysgol | ☐ 1 | ☐ 2 |
| ng) | Llyfrau cyfair technegol | ☐ 1 | ☐ 2 |
| h) | Geiriadur | ☐ 1 | ☐ 2 |
| i) | Peiriant golchi llestri | ☐ 1 | ☐ 2 |
| l) | Chwaraeydd DVD | ☐ 1 | ☐ 2 |
| ll) | Teledu sgrîn-fflat | ☐ 1 | ☐ 2 |
| m) | Chwaraeydd MP3, e.e. iPod | ☐ 1 | ☐ 2 |
| n) | Pecyn teledu premiwm (e.e. Sky Movies, Sky Sports) | ☐ 1 | ☐ 2 |

**C21 <u>Faint</u> o'r rhain sydd yn eich cartref chi?**

*(Ticiwch un blwch ymhob rhes)*

| | *Dim* | *Un* | *Dau* | *Tri neu fwy* |
|---|---|---|---|---|
| a) Ffoniau symudol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ 4 |
| b) Setiau teledu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ 4 |
| c) Cyfrifiaduron | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ 4 |
| ch) Ceir | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ 4 |
| d) Ystafelloedd â bath neu gawod | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ 4 |

**C22 Faint o lyfrau sydd yn eich cartref?**

*Fel arfer mae yna tua 40 o lyfrau ar bob metr o silffoedd. Peidiwch â chynnwys cylchgronau, papurau newydd, neu eich llyfrau ysgol.*

*(Ticiwch un blwch yn unig)*

0-10 o lyfrau ☐ 1

11-25 o lyfrau ☐ 2

26-100 o lyfrau ☐ 3

101-200 o lyfrau ☐ 4

201-500 o lyfrau ☐ 5

Mwy na 500 o lyfrau ☐ 6

## ADRAN 3: EICH GWEITHGAREDDAU DARLLEN

*Mae'r cwestiynau yn yr adran hon yn sôn yn bennaf am eich gweithgareddau darllen tu allan i'r ysgol.*

**C23 Tua faint o amser fyddwch chi'n ei dreulio'n darllen er mwyn pleser?**

*(Ticiwch un blwch yn unig)*

| | |
|---|---|
| Dwi ddim yn darllen er mwyn pleser | ☐ 1 |
| 30 munud neu lai y dydd | ☐ 2 |
| Rhwng 30 a 60 munud y dydd | ☐ 3 |
| 1 i 2 awr y dydd | ☐ 4 |
| Mwy na 2 awr y dydd | ☐ 5 |

.

**C24 Faint ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau hyn am ddarllen?**

*(Ticiwch un blwch yn unig ymhob rhes)*

| | *Anghytuno 'n gryf* | *Anghytuno* | *Cytuno* | *Cytuno 'n gryf* |
|---|---|---|---|---|
| a) Darllenaf dim ond os bydd rhaid i mi | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| b) Mae darllen yn un o'm hoff hobïau | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| c) Rwy'n hoffi siarad am lyfrau gyda phobl eraill | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| ch) Rwy'n ei chael hi'n anodd gorffen llyfrau | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| d) Teimlaf yn hapus os caf lyfr fel anrheg | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| dd) I fi, gwastraff amser yw darllen | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| e) Rwy'n mwynhau mynd i siop lyfrau neu lyfrgell | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| f) Darllenaf dim ond i gael gwybodaeth sydd ei hangen arnaf | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| ff) Rwy'n methu eistedd yn llonydd a darllen am fwy nag ychydig funudau | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| g) Rwy'n hoffi mynegi fy marn am y llyfrau rwyf wedi'u darllen | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| ng) Rwy'n hoffi cyfnewid llyfrau gyda fy ffrindiau | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |

**C25 Pa mor aml byddwch yn darllen y pethau yma achos rydych chi eisiau gwneud?**

*(Ticiwch un blwch yn unig ymhob rhes)*

| | *Byth neu braidd byth* | *Ambell waith mewn blwyddyn* | *Tua unwaith y mis* | *Nifer o weithiau mewn mis* | *Nifer o weithiau mewn wythnos* |
|---|---|---|---|---|---|
| a) Cylchgronau | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 |
| b) Comics | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 |
| c) Ffuglen (nofelau, naratifau, storïau) | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 |
| ch) Llyfrau ffeithiol | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 |
| d) Papurau newydd | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 |

## C26 Pa mor aml fyddwch chi'n gwneud y gweithgareddau darllen canlynol?

*(Ticiwch un blwch yn unig ymhob rhes. Os nad ydych chi'n gwybod beth yw'r gweithgaredd ticiwch "Dwi ddim yn gwybod beth ydy e")*

| | *Ddim yn gwybod beth ydy e* | *Byth neu bron byth* | *Nifer o weithiau'r mis* | *Nifer o weithiau'r wythnos* | *Nifer o weithiau'r dydd* |
|---|---|---|---|---|---|
| a) Darllen e-byst | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 |
| b) Sgwrsio ar-lein (e.e. MSN®) | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 |
| c) Darllen y newyddion ar-lein | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 |
| ch) Defnyddio geiriadur neu wyddoniadur ar-lein e.e. Wikipedia®) | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 |
| d) Chwilio am wybodaeth ar-lein i ddysgu am bwnc arbennig | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 |
| dd) Cymryd rhan mewn trafodaethau grŵp neu fforymau ar-lein | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 |
| e) Chwilio am wybodaeth ymarferol ar-lein (e.e. amserlenni, digwyddiadau, ryseti) | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 |

**C27 Pan fyddwch chi'n astudio, pa mor aml ydych chi'n gwneud y canlynol?**

*(Ticiwch un blwch yn unig ymhob rhes)*

| | *Braidd byth* | *Weithiau* | *Yn aml* | *Bron bob tro* |
|---|---|---|---|---|
| a) Wrth astudio, rwy'n ceisio cofio popeth sydd wedi'i gynnwys yn y testun | ☐1 | ☐2 | ☐3 | ☐4 |
| b) Wrth astudio, rwy'n dechrau trwy benderfynu beth yn union sydd angen imi ddysgu | ☐1 | ☐2 | ☐3 | ☐4 |
| c) Wrth astudio, rwy'n ceisio cofio cymaint o fanylion â phosib | ☐1 | ☐2 | ☐3 | ☐4 |
| ch) Wrth astudio, rwy'n ceisio cysylltu gwybodaeth newydd â gwybodaeth sydd gen i o bynciau eraill | ☐1 | ☐2 | ☐3 | ☐4 |
| d) Wrth astudio, rwy'n darllen y testun gymaint o weithiau nes fy mod yn ei wybod ar fy nghof | ☐1 | ☐2 | ☐3 | ☐4 |
| dd) Wrth astudio, rwy'n gwneud yn siŵr mod i'n deall beth rwyf wedi'i ddarllen | ☐1 | ☐2 | ☐3 | ☐4 |
| e) Wrth astudio, rwy'n darllen y testun drosodd a throsodd | ☐1 | ☐2 | ☐3 | ☐4 |
| f) Wrth astudio, rwy'n meddwl sut gall y wybodaeth fod yn ddefnyddiol y tu allan i'r ysgol | ☐1 | ☐2 | ☐3 | ☐4 |
| ff) Wrth astudio, rwy'n ceisio penderfynu pa syniadau dwi ddim wedi'u deall | ☐1 | ☐2 | ☐3 | ☐4 |
| g) Wrth astudio, rwy'n ceisio deall y deunydd yn well trwy ei gysylltu â'm profiadau fy hun | ☐1 | ☐2 | ☐3 | ☐4 |
| ng) Wrth astudio, rwy'n gwneud yn siŵr mod i'n cofio'r pwyntiau pwysicaf yn y testun. | ☐1 | ☐2 | ☐3 | ☐4 |
| h) Wrth astudio, rwy'n meddwl sut bydd y wybodaeth yn ffitio gyda beth sy'n digwydd mewn bywyd go iawn | ☐1 | ☐2 | ☐3 | ☐4 |
| i) Wrth astudio, os nad ydw i'n deall rhywbeth, rwy'n chwilio am wybodaeth ychwanegol i'w esbonio | ☐1 | ☐2 | ☐3 | ☐4 |

# ADRAN 4: AMSER DYSGU

## C28 Ar gyfartaledd, faint o funudau sydd mewn gwers ar gyfer y pynciau canlynol?

Munudau mewn gwers Gymraeg: |__|__|__| munud

Munudau mewn gwers Mathemateg: |__|__|__| munud

Munudau mewn gwers Gwyddoniaeth: |__|__|__| munud

## C29 Fel arfer, faint o wersi'r wythnos sydd gennych chi yn y pynciau canlynol?

Nifer y gwersi Cymraeg mewn wythnos: |__|__| gwers yr wythnos

Nifer y gwersi Mathemateg mewn wythnos: |__|__| gwers yr wythnos

Nifer y gwersi Gwyddoniaeth mewn wythnos: |__|__| gwers yr wythnos

## C30 Mewn wythnos arferol, lawn yn yr ysgol, faint o wersi sydd gennych chi i gyd?

Nifer cyfan y gwersi |__|__| gwers

**C31 Pa fath o wersi ydych chi'n eu cael ar hyn o bryd tu allan i amser ysgol?**

***Dim ond*** *gwersi* ***mewn pynciau rydych yn eu dysgu yn yr ysgol****, ac rydych yn gwario amser ychwanegol arnyn nhw tu allan i oriau ysgol arferol. Gallwch fod yn cael y gwersi yn eich ysgol, yn eich cartref neu rywle arall.*

*(Ticiwch un blwch yn unig ymhob rhes)*

| | *Ydw* | *Na* |
|---|---|---|
| a) Gwersi Cymraeg ychwanegol sy'n mynd yn bellach na'r hyn ddysgoch chi yn eich dosbarth Cymraeg | ☐ 1 | ☐ 2 |
| b) Gwersi Mathemateg ychwanegol sy'n mynd yn bellach na'r hyn ddysgoch chi yn eich dosbarth | ☐ 1 | ☐ 2 |
| c) Gwersi Gwyddoniaeth ychwanegol sy'n mynd yn bellach na'r hyn ddysgoch chi yn eich dosbarth | ☐ 1 | ☐ 2 |
| ch) Gwersi ychwanegol mewn pynciau ysgol eraill sy'n mynd yn bellach na'r hyn ddysgoch chi yn y dosbarth | ☐ 1 | ☐ 2 |
| d) Gwersi i'ch helpu gyda phethau nad ydych yn eu deall yn y dosbarth Cymraeg | ☐ 1 | ☐ 2 |
| dd) Gwersi i'ch helpu gyda phethau nad ydych yn eu deall yn y dosbarth Mathemateg | ☐ 1 | ☐ 2 |
| e) Gwersi i'ch helpu gyda phethau nad ydych yn eu deall yn y dosbarth Gwyddoniaeth | ☐ 1 | ☐ 2 |
| f) Gwersi i'ch helpu gyda phethau nad ydych yn eu deall mewn pynciau ysgol eraill | ☐ 1 | ☐ 2 |
| ff) Gwersi i'ch helpu gyda'ch sgiliau astudio | ☐ 1 | ☐ 2 |

**C32 Faint o oriau ydych chi'n arfer eu treulio bob wythnos wrth gael gwersi tu allan i amser ysgol yn y pynciau canlynol (yn yr ysgol, gartref neu rywle arall)?**

***Dim ond*** *gwersi* ***mewn pynciau rydych yn eu dysgu yn yr ysgol****, ac rydych yn gwario amser ychwanegol arnyn nhw tu allan i oriau ysgol arferol. Gallwch fod yn cael y gwersi yn eich ysgol, yn eich cartref neu rywle arall.*

*(Ticiwch un blwch yn unig ymhob colofn)*

| | *Cymraeg* | *Mathemateg* | *Gwyddoniaeth* | *Pynciau eraill* |
|---|---|---|---|---|
| Ddim yn cael gwersi yn y pynciau hyn tu allan i amser ysgol | ☐ 1 | ☐ 1 | ☐ 1 | ☐ 1 |
| Llai na 2 awr yr wythnos | ☐ 2 | ☐ 2 | ☐ 2 | ☐ 2 |
| 2 neu fwy ond llai na 4 awr yr wythnos | ☐ 3 | ☐ 3 | ☐ 3 | ☐ 3 |
| 4 neu fwy ond llai na 6 awr yr wythnos | ☐ 4 | ☐ 4 | ☐ 4 | ☐ 4 |
| 6 neu fwy o oriau'r wythnos | ☐ 5 | ☐ 5 | ☐ 5 | ☐ 5 |

## ADRAN 5: EICH YSGOL

**C33** *Meddwl am beth rydych wedi'i ddarllen yn yr ysgol:* **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau hyn?**

*(Ticiwch un blwch ymhob rhes)*

| | *Anghytuno yn gryf* | *Anghytuno* | *Cytuno* | *Cytuno'n gryf* |
|---|---|---|---|---|
| a) Nid yw'r ysgol wedi gwneud llawer i'm paratoi am fywyd fel oedolyn ar ôl yr ysgol | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| b) Mae'r ysgol wedi bod yn wastraff amser | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| c) Mae'r ysgol wedi helpu i roi'r hyder i mi wneud penderfyniadau | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| ch) Mae'r ysgol wedi dysgu pethau i fi a allai fod o help mewn gwaith | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |

**C34 Faint ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol am yr athrawon yn eich ysgol?**

*(Ticiwch un blwch yn unig ymhob rhes)*

| | *Anghytuno yn gryf* | *Anghytuno* | *Cytuno* | *Cytuno'n gryf* |
|---|---|---|---|---|
| a) Rwy'n cyd-fynd yn dda â'r rhan fwyaf o fy athrawon | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| b) Mae'r rhan fwyaf o fy athrawon yn cymryd diddordeb yn fy lles | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| c) Mae'r rhan fwyaf o fy athrawon yn gwrando ar beth sy gen i i'w ddweud | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| ch) Os bydd angen help ychwanegol arna i, caf yr help oddi wrth fy athrawon | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| d) Mae'r rhan fwyaf o fy athrawon yn fy nhrin i'n deg | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |

## ADRAN 6: EICH GWERSI CYMRAEG

**C35 Ar gyfartaledd, faint o ddisgyblion sydd yn eich dosbarth Cymraeg chi??**

|_|_|_| *disgybl*

**C36 Pa mor aml mae'r pethau hyn yn digwydd yn eich gwersi Cymraeg?**

*(Ticiwch un blwch yn unig ymhob rhes)*

| | *Byth neu braidd byth* | *Mewn rhai gwersi* | *Yn y rhan fwyaf o'r gwersi* | *Ymhob gwers* |
|---|---|---|---|---|
| a) Nid yw'r disgyblion yn gwrando ar beth mae'r athro/athrawes yn ei ddweud | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| b) Mae yna sŵn a helynt | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| c) Rhaid i'r athro/athrawes aros amser hir i'r disgyblion gael tawelu | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| ch) Ni all y disgyblion weithio'n dda | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| d) Nid yw'r disgyblion yn dechrau gweithio am amser hir ar ôl dechrau'r wers | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |

**C37 Pa mor aml mae'r pethau canlynol yn digwydd yn eich gwersi Cymraeg?**

*(Ticiwch un blwch yn unig ymhob rhes)*

| | *Byth neu braidd byth* | *Mewn rhai gwersi* | *Yn y rhan fwyaf o'r gwersi* | *Ymhob gwers* |
|---|---|---|---|---|
| a) Mae'r athro/athrawes yn gofyn i'r disgyblion esbonio ystyr testun | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| b) Mae'r athro/athrawes yn gofyn cwestiynau anodd sy'n herio'r disgyblion i ddeall testun yn well | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| c) Mae'r athro/athrawes yn rhoi digon o amser i'r disgyblion gael meddwl am eu hatebion | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| ch) Mae'r athro/athrawes yn argymell llyfr neu awdur i'w darllen | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| d) Mae'r athro/athrawes yn annog y disgyblion i fynegi eu barn am destun | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| dd) Mae'r athro/athrawes yn helpu'r disgyblion i gysylltu'r storïau maent yn eu darllen â'u bywydau eu hunain | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| e) Mae'r athro/athrawes yn dangos i'r disgyblion sut mae'r wybodaeth mewn testun yn adeiladu ar beth maent yn ei wybod yn barod | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |

**C38 Pa mor aml fydd y canlynol yn digwydd yn ystod eich gwersi Cymraeg?**

*(Ticiwch un blwch yn unig ymhob rhes)*

| | *Byth neu braidd byth* | *Mewn rhai gwersi* | *Yn y rhan fwyaf o'r gwersi* | *Ymhob gwers* |
|---|---|---|---|---|
| a) Mae'r athro/athrawes yn esbonio beth mae'n disgwyl i'r disgyblion wneud. | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| b) Mae'r athro/athrawes yn gwneud yn siŵr bod disgyblion yn canolbwyntio wrth weithio ar dasg ddarllen. | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| c) Mae'r athro/athrawes yn trafod gwaith disgyblion ar ôl iddyn nhw orffen y dasg ddarllen. | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| ch) Mae'r athro/athrawes yn dweud wrth y disgyblion ymlaen llaw sut bydd eu gwaith yn cael ei asesu. | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| d) Mae'r athro/athrawes yn gofyn a ydy pob disgybl wedi deall sut i gwblhau'r dasg ddarllen. | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| dd) Mae'r athro/athrawes yn marcio gwaith y disgyblion (un ai yn ystod neu ar ôl y wers). | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| e) Mae'r athro/athrawes yn rhoi cyfle i'r disgyblion ofyn cwestiynau am y dasg ddarllen. | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| f) Mae'r athro/athrawes yn gofyn cwestiynau sy'n ysgogi'r disgyblion i gymryd rhan weithredol. | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |
| ff) Mae'r athro/athrawes yn dweud wrth y disgyblion sut gwnaethon nhw yn y dasg ddarllen unwaith y byddant wedi gorffen. | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 |

## ADRAN 7: LLYFRGELLOEDD

*Mae'r adran hon yn gofyn cwestiynau am lyfrgelloedd. Gallant fod yn eich ysgol a/neu tu allan i'ch ysgol.*

**C39 Pa mor aml fyddwch chi'n mynd i lyfrgell i wneud y gweithgareddau canlynol?**

*(Ticiwch un blwch yn unig ymhob rhes)*

| | *Byth* | *Ambell waith mewn blwyddyn* | *Tua unwaith y mis* | *Nifer o weithiau mewn mis* | *Nifer o weithiau mewn wythnos* |
|---|---|---|---|---|---|
| a) Benthyg llyfrau i'w darllen er mwyn pleser. | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 |
| b) Benthyg llyfrau ar gyfer gwaith ysgol. | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 |
| c) Gweithio ar waith cartref, gwaith cwrs neu bapurau ymchwil | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 |
| ch) Darllen cylchgronau neu bapurau newydd. | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 |
| d) Darllen llyfrau er hwyl. | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 |
| dd) Dysgu am bethau tu allan i'r cyrsiau ysgol, fel chwaraeon, hobïau, pobl neu gerddoriaeth | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 |
| e) Defnyddio'r rhyngrwyd | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 |

**C40 Oes llyfrgell yn eich ysgol?**

Nac oes ☐ 1

Oes ☐ 2

## ADRAN 8: EICH STRATEGAETHAU AR GYFER DARLLEN A DEALL TESTUNAU

*Mae nifer o ddulliau gwahanol o astudio a deall testunau. Mae rhai ohonynt yn fwy defnyddiol nag eraill, yn dibynnu ar y math o dasg ddarllen. Mae'r ddau gwestiwn nesaf yn cyflwyno nifer o dasgau darllen, ac yna rhestr o'r dulliau neu'r 'strategaethau' hyn. Rydym am gael eich barn ar faint o help yw'r strategaethau hyn ar gyfer tasgau darllen gwahanol.*

*Mae pob un o'r cwestiynau'n dechrau gyda disgrifiad byr o dasg ddarllen arbennig. Yna mae rhestr o strategaethau darllen posib. Meddyliwch faint o help yw pob strategaeth mewn perthynas â'r dasg ddarllen dan sylw yn unig. Gall rhai o'r strategaethau fod yn help ar gyfer un dasg ddarllen ond nid un arall.*

*Rhowch sgôr rhwng 1 a 6 i bob strategaeth. Mae sgôr o 1 yn golygu nad ydych chi'n meddwl ei bod yn help o gwbl ar gyfer y dasg ddarllen honno. Mae sgôr o 6 yn golygu eich bod yn meddwl ei bod yn help mawr iawn ar gyfer y dasg ddarllen honno.*

*Gallwch ddefnyddio'r un sgôr fwy nag unwaith os ydych chi'n meddwl bod dwy neu ragor o'r strategaethau yr un faint o help, ond ticiwch un blwch yn unig ymhob rhes, os gwelwch yn dda.*

*Dyma enghraifft o gwestiwn mae disgybl wedi'i gwblhau. (Mae'r enghraifft hon am chwarae tenis bwrdd, nid am ddarllen.)*

*Cwestiwn Enghreifftiol*

**Tasg: Rydych am wella'r ffordd rydych chi'n chwarae tenis bwrdd er mwyn ennill cystadleuaeth leol.**
*Yn eich barn chi, faint o help yw'r strategaethau canlynol ar gyfer gwella'r ffordd rydych chi'n chwarae tenis bwrdd?*

| | **Strategaeth bosib** | **Sgôr** (1) Dim help o gwbl | (2) | (3) | (4) | (5) | (6) Help mawr iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a) | Darllen llyfr am dechneg chwarae tenis bwrdd. | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| b) | Ymarfer chwarae tenis bwrdd yn erbyn ffrind mor aml â phosib. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |
| c) | Gwneud ymarferion ffitrwydd bob bore. | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |
| ch) | Gwylio arbenigwyr yn chwarae a cheisio deall eu technegau | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |

## C41 Tasg ddarllen: Rhaid ichi ddeall a chofio'r wybodaeth mewn testun.

*Yn eich barn chi, faint o help fyddai'r strategaethau canlynol ar gyfer deall a chofio'r testun?*

| | **Strategaeth bosib** | **Sgôr** *Dim help o gwbl* (1) | (2) | (3) | (4) | (5) | *Help mawr iawn* (6) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a) | Canolbwyntio ar y rhannau o'r testun sy'n hawdd eu deall. | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 | ☐ 6 |
| b) | Darllen trwy'r testun yn gyflym ddwywaith. | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 | ☐ 6 |
| c) | Ar ôl darllen y testun, trafod ei gynnwys gyda phobl eraill. | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 | ☐ 6 |
| ch) | Tanlinellu rhannau pwysig y testun. | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 | ☐ 6 |
| d) | Crynhoi'r testun yn fy ngeiriau fy hun. | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 | ☐ 6 |
| dd) | Darllen y testun yn uchel i berson arall. | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 | ☐ 6 |

**C42 Tasg ddarllen: Rydych newydd ddarllen darn dwy-dudalen hir ac eithaf anodd am y newidiadau yn lefel y dŵr mewn llyn yn Affrica. Rhaid i chi ysgrifennu crynodeb.**

*Yn eich barn chi, faint o help fyddai'r strategaethau canlynol er mwyn ysgrifennu crynodeb o'r darn dwy-dudalen hwn?*

| **Strategaeth bosib** | **Sgôr** *Dim help o gwbl* (1) | (2) | (3) | (4) | (5) | *Help mawr iawn* (6) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| a) Ysgrifennu crynodeb. Yna gwirio bod pob paragraff yn cael ei gynnwys yn y crynodeb, achos mae'n rhaid cyfeirio at gynnwys pob paragraff | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 | ☐ 6 |
| b) Ceisio copïo'n gywir gymaint o frawddegau â phosib | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 | ☐ 6 |
| c) Cyn ysgrifennu'r crynodeb, darllen y darn cymaint o weithiau â phosib | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 | ☐ 6 |
| ch) Gwirio'n ofalus a ydy'r darn yn cynnwys y ffeithiau pwysicaf | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 | ☐ 6 |
| d) Darllen trwy'r darn gan danlinellu'r brawddegau pwysicaf. Yna eu hysgrifennu yn fy ngeiriau fy hun fel crynodeb | ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 | ☐ 6 |

***Diolch yn fawr iawn am gydweithredu trwy lenwi'r holiadur hwn!***